HYSBYSIAD CYHOEDDI AMRYWIAD I'R PENDERFYNIAD I GYFYNGU AR GYMWYSTERAU BLAENORIAETHOL A WNAED O DAN ADRAN 14 O DDEDDF CYMWYSTERAU CYMRU 2015 ("Y DDEDDF")

Mae'r hysbysiad hwn yn golygu cyhoeddi'n ffurfiol o dan Adran 14 (5) o'r Ddeddf amrywiad i benderfyniad a wneir o dan adran 14 (1) o'r Ddeddf o ran y cymwysterau blaenoriaethol a nodir isod.

Amrywio Penderfyniad

O ran pob cymhwyster cyfyngedig newydd a nodir isod, mae Cymwysterau Cymru yn fodlon, o roi sylw i brif nodau Cymwysterau Cymru, ac i'r amcanion yn is-adran 14 (4) o'r Ddeddf, ei bod yn ddymunol cyfyngu ar nifer y ffurfiau ar y cymhwyster a gymeradwyir gan Cymwysterau Cymru i'r nifer mwyaf a bennir yn y penderfyniad hwn.

Mae Cymwysterau Cymru trwy hyn yn penderfynu mai'r nifer uchaf o ffurfiau ar bob un o'r cymwysterau cyfyngedig y gellir eu cymeradwyo gan Cymwysterau Cymru o dan Ran 4 o'r Ddeddf ar unrhyw un adeg yw **un**.

Y cymwysterau cyfyngedig yw:

Dan gyfyngiad am bum mlynedd o fis Medi 2019:

- Lefel 1/2 TGAU Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant
- Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Craidd)
- Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant (Craidd)
- Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau
- Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Oedolion)
- Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer
- Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori

Qualifications Wales
Q2 Building, Pencarn Lane
Imperial Park,
Newport
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

www.cymwysteraucymru.org

Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

- Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Oedolion)
- Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Plant a Phobl Ifanc)
- Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer

Dan gyfyngiad am bum mlynedd o fis Medi 2020:

- Lefel 3 TAG Uwch Gyfrannol mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant
- Lefel 3 TAG Uwch mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant
- Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori
- Lefel 4 Paratoi i Arwain a Rheoli ym Maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Lefel 4 Iechyd a Gofal Cymdeithasol gydag Arbenigedd
- Lefel 4 Paratoi i Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant
- Lefel 4 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant gydag Arbenigedd
- Lefel 5 Arwain a Rheoli ym Maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer
- Lefel 5 Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer

Dan gyfyngiad am bum mlynedd o fis Medi 2021:

- Tystysgrif Lefel 3 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau
- Diploma Lefel 3 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau

Mehefin 2020